*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1791

# Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2006

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2006 a daw i rym ar 1 Medi 2006.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "yr ardal barcio" ("*the parking area*") yw'r ardal a ddynodir yn ardal barcio a ganiateir ac yn ardal barcio arbennig gan erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); ac

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Traffig Ffyrdd 1991.

### Cymhwyso

**3.** Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Fwrdeistref Sirol Conwy yn gyfan ac eithrio'r A55 ar ei hyd, gan gynnwys ei ffyrdd ymuno a'i ffyrdd ymadael, o fewn y fwrdeistref sirol.

### Dynodi ardal barcio a ganiateir ac ardal barcio arbennig

**4.** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol drwy hyn yn dynodi'r ardal y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddi—

(a) yn ardal barcio a ganiateir; a

(b) yn ardal barcio arbennig.

### Addasu a chymhwyso Rhan II o Ddeddf 1991

**5.** Mae adrannau 66, 69 i 74, 78, 79 ac 82 o Ddeddf 1991 ac Atodlen 6 iddi yn gymwys mewn perthynas â'r ardal barcio ac yn unol â'r cymhwysiad hwnnw maent yn effeithiol yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

### Addasu Deddf 1984

**6.** Caiff Deddf 1984 ei haddasu mewn perthynas â'r ardal barcio fel a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1984 p.27. Diwygiwyd adran 32(4)(a), ac amnewidiwyd adran 45(1), gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraffau 39 a 44. Mewnosodwyd adrannau 46(1A), 63A a 101(4A) a (5A) gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991, adrannau 64(2), 44(1) a 67(4) a (6). Diwygiwyd adran 102(8) gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991, adran 68(3).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

4 Gorffennaf 2006

(**2**) 1998 p.38.